OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 No. 1132

# Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014

## RHAN 6

## OFFERYN LLYWODRAETHU, STAFFIO, CYNGHORAU YSGOL A STATWS ELUSENNOL

**Statws elusennol ffederasiynau**

**49.**—(1) Mae corff llywodraethu ffederasiwn sy'n cynnwys ysgol sefydledig neu wirfoddol yn elusen sy'n elusen esempt at ddibenion Deddf Elusennau 2011([**1**]), ond nid yw corff llywodraethu unrhyw ffederasiwn yn elusen os yw'r ffederasiwn yn cynnwys, yn unig, ysgolion cymunedol, ysgolion arbennig cymunedol neu ysgolion meithrin a gynhelir.

(2) Cyn belled ag y bo'n elusen, rhaid i unrhyw sefydliad—

(a) a weinyddir gan neu ar ran unrhyw gorff llywodraethu ffederasiwn sy'n cynnwys ysgol sefydledig neu wirfoddol; a

(b) a sefydlwyd at ddibenion cyffredinol, neu unrhyw bwrpas arbennig, neu mewn cysylltiad â'r corff hwnnw neu'r ffederasiwn hwnnw neu unrhyw ysgol sefydledig neu wirfoddol o fewn y ffederasiwn hwnnw;

hefyd fod yn elusen esempt at ddibenion Deddf Elusennau 2011.

(3) Yn y rheoliad hwn, mae i "elusen" a "sefydliad" yr un ystyron ag y sydd i "charity" ac "institution", yn eu trefn, yn Neddf Elusennau 2011.

([**1**]) 2011 p.25.